ARSON REDUCTION TEAM (SOUTH WALES)
NEWSLETTER

February 2009

ReStart Less Stress Programme

ART worked with SaferWales Restart programme to deliver an arson awareness course to year 8 and 9 students from Willows and Llanedeyrn High Schools. The course involved videos and discussions on arson awareness and the dangers of starting fires, followed by a tour of Ely station to gain an understanding of the work of the firefighters.

Arson Training Day

ART hosted a Training Day with presentations from Gwent and South Wales Police and Mid and West Wales Fire and Rescue Service on protecting people at risk of arson attacks. Representatives from South, Mid and West and North Wales Fire and Rescue Service, Homesafe, Arson Reduction Teams and Gwent Police attended the training.

YOT Arson Awareness Course

ART worked with Newport YOTs to facilitate an arson awareness course for young offenders. The course included a tour of Ely station, arson related video workshop, and a burns and effects presentation. Students from Cross Keys college attended to apply special effects make up to represent burns.

All Wales Safety Quiz

The ART attended the regional finals of the All Wales School Liaison Core Programme Quiz 2008-09 Crime Prevention on 16th January 2009 at Police HQ in Bridgend and Gwent The standard of all the teams was high and the South Wales region was one by Glan Afan School from Aberavon. They will now go through to the finals to be held at the Copthorne Hotel, Cardiff on 4th February 2009.

Arson Reduction Team (South Wales)
Ely Fire Station, Cowbridge Road West, Ely Cardiff CF5 5BQ
Telephone - 01443 232654 or FREEPHONE 0800 731 7287
email - arson@southwales-fire.gov.uk

South Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Heddlu Gwent Police

Raising Awareness • Reducing Risk

TÎM LLEIHAU LLOSGI BWRIADOL (DE CYMRU)

CYLCHLYTHYR

Chwefror 2009

Rhaglen Llai o Straen Restart

Gweithiodd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol gyda Rhaglen Restart Cymru fwy Diogel i ddarparu cwrs ymwybyddiaeth llosgi bwriadol i ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 o Ysgolion Uwchradd Willows a Llanedeyrn. Roedd y cwrs yn cynnwys fideos a thrafodaethau ar ymwybyddiaeth llosgi bwriadol a pheryglon dechrau tanau, wedi'i ddilyn gan daith o amgylch Gorsaf Dân Trelái er mwyn cael dealltwriaeth o waith ymladdwyr tân.

Diwrnod Hyfforddiant Llosgi Bwriadol

Cynhaliodd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol Ddiwrnod Hyfforddiant gyda chyflwyniadau gan Heddlu Gwent, Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ddiogelu pobl sydd mewn perygl o ymosodiadau llosgi bwriadol. Mynychodd cynrychiolwyr o Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd, Canolbarth a Gorllewin a De Cymru, Homesafe, Timau Lleihau Llosgi Bwriadol a Heddlu Gwent yr hyfforddiant.

Cwrs Ymwybyddiaeth Lleihau Llosgi Bwriadol Timau Troseddau Ieuenctid

Gweithiodd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol gyda Thimau Troseddau Ieuenctid Casnewydd i hyrwyddo cwrs ymwybyddiaeth lleihau llosgi bwriadol ar gyfer troseddwyr ifanc. Roedd y cwrs yn cynnwys taith o amgylch Gorsaf Dân Trelái, gweithdy fideo yn ymwneud â llosgi bwriadol a chyflwyniad ar losgiadau ac effeithiau. Daeth myfyrwyr o goleg Cross Keys i roi colur effaith arbennig sy'n edrych fel llosgiadau ar bobl.

Cwis Diogelwch Cymru Gyfan

Mynychodd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol rownd derfynol ranbarthol y Cwis Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru Gyfan Atal Troseddu 2008-2009 ar 16 Ionawr 2009 ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Gwent. Roedd pob tîm o safon uchel ac enillwyr rhanbarth De Cymru oedd Ysgol Glan Afan o Aberafon. Byddant yn mynd i'r rownd derfynol a gynhelir yng Ngwesty Copthorne yng Nghaerdydd ar 4 Chwefror 2009.

Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol (De Cymru)
Gorsaf Dan Trelái, Heol y Bontfaen Gorllewinol, Trelái, Caerdydd CF5 5BQ
Ffôn - 01443 232654 neu RHADFFON 0800 731 7287
E-bost: arson@southwales-fire.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Heddlu Gwent Police